**Eluned Morgan AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol**
**Cabinet Secretary for Health and Social Care**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Russell George AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Senedd Cymru

SeneddIechyd@senedd.cymru

3 Mehefin 2024

Annwyl Russell,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 25 Ebrill, yn gofyn am yr wybodaeth ddiweddaraf am atal y gwasanaeth geni yn y cartref a chau Canolfan Geni Castell-nedd Port Talbot.

Yr wythnos diwethaf, cymeradwyodd bwrdd rheoli Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe ailagor Canolfan Geni Castell-nedd Port Talbot ac adfer y gwasanaeth geni yn y cartref, yn amodol ar gael cymeradwyaeth derfynol gan y Bwrdd yn ei gyfarfod cyhoeddus ar 23 Mai. Roedd hyn yn dilyn adolygiad cynhwysfawr o'r broses gyda mewnbwn ac ymgysylltiad sylweddol gan staff.

Fodd bynnag, o ganlyniad i faterion a godwyd yr wythnos hon gan un o undebau cydnabyddedig y bwrdd iechyd, mae fy swyddogion wedi cael gwybod y bydd oedi byr cyn dod â'r cynnig ffurfiol gerbron y Bwrdd i'w ystyried. Bydd hyn yn sicrhau bod y Bwrdd yn cael ei friffio'n llawn am unrhyw faterion a bod ganddo ddigon o sicrwydd cyn gwneud penderfyniad terfynol.

Yn gywir

**Eluned Morgan AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Cabinet Secretary for Health and Social Care

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.